# POWELL, GRIFFITH (1561 - 1620), prifathro Coleg Iesu, Rhydychen

**Enw:** Griffith Powell
**Dyddiad geni:** 1561
**Dyddiad marw:** 1620
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** prifathro Coleg Iesu, Rhydychen
**Maes gweithgaredd:** Addysg
**Awdur:** Idris Llewelyn Foster

Ganwyd 1561, mab John ap Hywel, Llansawel, Sir Gaerfyrddin. Ymaelododd yng Ngholeg Iesu yn 1581; graddiodd yn M.A. 1589, ac yn D.C.L. 1599. Etholwyd ef yn gymrawd o'r coleg yn 1589, a dyrchafwyd ef yn brifathro yn 1613. Cyhoeddodd ddau lyfr yn delio ag adrannau o waith Aristotlys (1594 a 1598). Yr oedd Powell yn r o ddylanwad mawr yn ystod ei flynyddoedd fel cymrawd o'r Coleg, a bu'n weithgar iawn yn ceisio cael trefn ar fywyd ac eiddo'r coleg yn ei gyfnod cynnar. Fel prifathro, ymroes i godi adeiladau newydd, a thrwy ei ymdrechion ef yr adeiladwyd y capel a'r ffreutur. Bu farw 15 Mehefin 1620, a chladdwyd ef yn eglwys Mihangel, Rhydychen, gerllaw Coleg Iesu.

## Awdur

**Yr Athro Idris Llewelyn Foster**, (1911 - 1984)

## Ffynonellau


*Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms* (Llandovery 1846), i, 223-4

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813–20), ii, 283

Hardy, *Jesus College* (1899), 1899

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Oxford Dictionary of National Biography*


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 10196680

Wikidata: Q5608910


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu